

# **SL(6)256 – Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2022**

## **Cefndir a diben**

Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2019") yn diwygio'r gyfraith ar addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r setiau a ganlyn o reoliadau wrth i elfennau penodol o Ddeddf 2018 ddod i rym:

- (i) Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002
- (ii) Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003
- (iii) Rheoliadau Cyngorau Ysgolion (Cymru) 2005
- (iv) Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2022
- (v) Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- (vi) Rheoliadau Dethol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 2017

## **Gweithdrefn**

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## **Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 3(2)(b), nid yw geiriad y ddarpariaeth yn nodi â sicrwydd ble yn y diffiniad o "cynorthwydd cymorth dysgu"<sup>1</sup> y dylid mewnosod y testun newydd.

---

<sup>1</sup> Yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002.



Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod "with" yn digwydd mewn dau le yn y diffiniad hwnnw ac felly nid yw dweud bod y testun wedi'i fewnosod ar ôl "with" yn ddigon i wahaniaethu rhyngddynt a nodi'n ble yn union y mae angen mewnosod y testun.

Nid yw'r gwall yn ymddangos yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau.

## **2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 5(2)(a) yn darparu y dylid mewnosod y diffiniadau newydd "*yn y lleoedd priodol*".

Fodd bynnag, nid yw'r diffiniadau presennol yn rheoliad 2 o Reoliadau 2005<sup>2</sup> wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor. Gan hynny nid yw'r lle "priodol" i fewnosod y diffiniadau newydd yn y rhestr bresennol o ddiffiniadau'n ddigon clir.

Nid yw'r gwall yn ymddangos yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau.

### **Rhinweddau: craffu**

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

### **Craffu Technegol**

#### **Pwynt 1: Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn derbyn y pwynt a godwyd yn yr adroddiad. Caiff camau gweithredu eu cymryd i ddiwygio'r ddarpariaeth berthnasol ar y cyfle cyntaf fel rhan o raglen barhaus yr is-ddeddfwriaeth a gynhelir er mwyn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn llawn.

#### **Pwynt 2: Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd yn yr adroddiad. Caiff camau gweithredu eu cymryd i ddiwygio'r ddarpariaeth berthnasol ar y cyfle cyntaf fel rhan o raglen barhaus yr is-ddeddfwriaeth a gynhelir er mwyn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn llawn.

## **Trafodaeth y Pwyllgor**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

---

<sup>2</sup> Rheoliadau Cyngorau Ysgolion (Cymru) 2005

